CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

323/51

**ASTUDIAETHAU BUSNES**

**BS3**

P.M. DYDD LLUN, 5 Mehefin 2006

(1 awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **y ddau** gwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

Asesir ymgeiswyr yn ôl ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn yr atebion h.y. strwythuro a chyflwyno syniadau; eglurder mynegiant; sillafu, atalnodi a gramadeg. Rhoddir hyd at dri marc am y cyfathrebu ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

**1.** Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Yn aml mae cwmnïau gweithgynhyrchu y DU yn tueddu i fod â **strwythurau rheoli hierarchaidd** wedi'u trefnu o amgylch **adrannau swyddogaethol** *(functional)*. Mae'n hanfodol bod pobl sydd â'r sgiliau mwyaf priodol a'r bersonoliaeth fwyaf priodol yn cael eu recriwtio i bob adran swyddogaethol er mwyn sicrhau bod cwmnïau o'r fath yn gweithredu'n effeithlon.

Un ffordd fwyfwy poblogaidd o sgrinio ceisiadau swydd yw defnyddio dadansoddi llawysgrifen, a elwir hefyd yn graffoleg. "Llawysgrifen yw craidd *(essence)* yr hyn y mae'r ymennydd yn ei feddwl," eglurodd Elaine Quigley o'r Sefydliad Graffoleg. "Gellir ei defnyddio i ragfynegi potensial, cytunedd *(compatibility)*, ydy person yn aelod cefnogol o dîm, neu ydy ef/hi yn fentergar *(entrepreneurial)* ac yn gweithio'n well ar ei ben/phen ei hun," meddai.

Mae Elaine yn cytuno mai'r defnydd gorau a wneir o graffoleg mewn dewis yw ar y cyd â dulliau eraill. "Mae profion seicometrig yn iawn ond gellir eu llywio *(manipulate)*. Gall ymgeiswyr newid eu hatebion yn dibynnu ar yr hyn maen nhw'n credu bod y cwmni eisiau ei glywed. O'u defnyddio gyda graffoleg, fodd bynnag, mae'r naill yn helpu i gadarnhau'r llall," meddai. Efallai bod graffoleg a phrofion seicometrig yn fwy defnyddiol ar gyfer recriwtio allanol yn hytrach na **recriwtio mewnol**.

Wrth i gwmnïau ddod yn fwyfwy ymwybodol o gostau recriwtio, mae'n edrych yn debygol y byddant yn agored i nifer o brosesau newydd o sgrinio. Mae'n edrych yn sicr y bydd graffoleg yn parhau yn un o'r dulliau a ddefnyddir wrth benderfynu a gaiff ymgeiswyr swydd eu cyflogi neu eu gwrthod *(written off)*.

*Addaswyd o The Times, 26 Ionawr 2005*

*(a)* Eglurwch ystyr:

(i) *strwythurau rheoli hierarchaidd*; [3]

(ii) *adrannau swyddogaethol*. [3]

*(b)* Eglurwch fanteision **ac** anfanteision *recriwtio mewnol*. [6]

*(c)* "Er bod graffoleg a phrofion seicometrig yn ddangosyddion defnyddiol o addasrwydd ymgeisydd ar gyfer swydd, mae dulliau eraill o ddewis yn fwy dibynadwy yn aml." Trafodwch. [8]

**2.** Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

***FOLLEYS*, Y GWNEUTHURWYR PEBYLL**

Mae Candice a Simon Folley wedi bod yn rhedeg busnes gweithgynhyrchu pebyll yn eithaf llwyddiannus am yr wyth mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd maent yn cyflogi deuddeg person. Nawr mae eu mab, Patrick, wedi ymuno â nhw fel partner gyda'r bwriad tymor hir o gymryd awenau'r busnes. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt gynyddu graddfa'r busnes er mwyn rhoi bywoliaeth gysurus iddyn nhw i gyd.

Ar hyn o bryd mae'r busnes gwneud pebyll wedi'i leoli mewn adeilad ychydig oddi ar Ffordd Aberystwyth heb fod ymhell o ganol y dref. Mae Candice yn awgrymu eu bod yn symud i uned fawr yn y stad ddiwydiannol leol yn agos at y drafffordd. Yma gallent gael man arddangos mewnol mawr a man gwerthu mawr.

P'un ai y bydd *Folleys* yn symud ai peidio, mae'r busnes yn dymuno gwella **ansawdd ei gynhyrchion** a'i **reoli stoc**. Mae gwerthiant pebyll yn tueddu i fod yn dymhorol ac o ganlyniad nid oes ganddo lif cyson o archebion. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid iddo ddisgowntio ei stoc yn sylweddol tua diwedd pob tymor er mwyn gwneud lle i ddyluniadau newydd.

*(a)* (i) Eglurwch ystyr *rheoli stoc*. [2]

(ii) Pa broblemau y gallai *Folleys* eu hwynebu o ganlyniad i reolaeth wael ar stoc? [4]

*(b)* Eglurwch **ddwy** ffordd y gallai *Folleys* wella *ansawdd ei gynhyrchion*. [6]

*(c)* Ystyriwch y ffactorau y dylai *Folleys* eu hystyried wrth benderfynu p'un ai i adleoli ai peidio. [8]